



Adroddiad Arolygu

Cylch Meithrin Tregaron

Ysgol Henry Richard
Ffordd Llanbedr Pont Steffan
Tregaron
SY25 6HG

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddi

adroddiad heb ei



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/06/2021



Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cylch Meithrin Tregaron

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	Cylch Meithrin Tregaron
Lleoedd cofrestredig	19
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb

Mae'r staff yn gwranddo ar y plant ac yn gwerthfawrogi pob ymgais i gyfathrebu. Caiff y plant eu hannog i siarad a mynegi eu barn. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi setlo am eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac maent yn ymddiddori yn eu gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, ac yn llawn cyffro yn eu cylch. Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn rhoi gofal cyson iddynt. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar; maent yn deall anghenion a galluoedd unigol y plant ac yn eu diwallu. Caiff y plant ofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r staff gofal wedi nodi unrhyw risgiau diangen i'r plant ac wedi eu dileu gyhyd ag y bo'n bosibl. Mae digon o le a chyfleusterau i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn hybu annibyniaeth y plant. Caiff ei gadw a'i gynnal yn dda, ac mae wedi'i addurno'n dda. Mae'r dodrefn, y cyfarpar a'r teganau mewn cyflwr da, ac maent yn addas o ran eu dyluniad i anghenion y plant. Mae datganiad o ddiben clir gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, sy'n cynnig darlun cywir o natur y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r lleoliad wedi meithrin prosesau cyfathrebu clir â'r rhieni ac ymddiriedaeth â nhw, gan weithio gyda nhw i nodi anghenion a dewisiadau unigol y plant. Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol er mwyn diogelu llesiant y plant a'i hybu.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Llesiant

Mae gan y plant lais ac maent yn dylanwadu ar eu gofal, er enghraifft drwy ddewis eu byrbrydau. Gall y plant ddewis rhwng banana, grawnwin neu afal a chracers, ffyn bara neu dost. Maent yn llwyddo i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn hyderus i siarad â'r staff ac â ni ac i fynegi eu hunain. Gwnaeth y plant, yn falch iawn, ddangos i ni eu bod wedi gorffen eu holl fyrbryd. Mae hyn yn rhoi hwb i hunan-barch ac ymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus, ac mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n darparu gofal o ansawdd da yn gyson. Mae'r plant yn barod iawn i ofyn i'r staff am help ac i sgwrsio â nhw, gan ddangos eu bod yn gyfforddus â nhw. Clywsom y plant yn mwynhau canu caneuon gyda'r staff. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynd i'r lleoliad yn fawr iawn. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn; er enghraifft, mae ardal bersonol gan bob un ohonynt er mwyn storio eu cotiau, eu bagiau a'u gwaith. Roedd yn bleser gweld y plant yn chwarae gyda'r anifeiliaid a'r deinosoriaid bach, gan drafod eu chwarae a chan ganolbwyntio am gyfnod o amser wrth iddynt eu trefnu a'u haildrefnu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn gwybod enwau ei gilydd ac yn gweithio gyda'r staff yn hapus wrth symud o un gweithgaredd i'r llall. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant wedi gwneud ffrindiau yn y lleoliad. Mae'r plant yn dechrau rhannu adnoddau. Maent yn cymryd eu tro wrth chwarae gemau, er enghraifft, pan fu gormod o blant yn ceisio eistedd o amgylch y bwrdd ar gyfer gweithgaredd, roedd y plant eraill yn hapus i aros eu tro. Mae'r plant yn dysgu i barchu'r adnoddau a'r teganau ac i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhoi i gadw ar ôl cael eu defnyddio.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae ac yn cymryd rhan ynddo yn llawn. Cânt y cyfle i gymryd diddordeb mewn gweithgareddau megis chwarae knex, gan feistroli sgiliau manwl. Mae'r plant yn archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn helpu eu hunain i adnoddau yn ystod cyfnodau chwarae rhydd. Dywedodd un o'r rhieni wrthym fod y plant yn cael hwyl ac yn mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud yn y lleoliad.

Caiff y plant ddigon o gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r trefniadau yn y lleoliad, ac mae llawer ohonynt yn paratoi i fynd adref heb lawer o help. Caiff y plant eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, megis golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi teganau yn eu blychau ar ôl eu defnyddio. Dywedodd y staff wrthym fod y plant y cyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau a syniadau.

Gofal a Datblygiad

Mae'r staff gofal yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff gofal yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac maent wedi adolygu gweithdrefnau'r lleoliad yn unol â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant, a gallant siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn petai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu plant. Mae'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatri. Mae'r staff gofal yn darparu byrbrydau iach ac mae gan y lleoliad weithdrefnau paratoi bwyd da. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o blant ag alergeddau ac maent yn cynnig byrbrydau amgen iddynt. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, gan sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan ynddynt yn gwybod sut i adael y lleoliad yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn gwneud yn siŵr bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac amser cinio, ac yn rhoi eu llaw dros eu ceg pan fyddant yn pesychu. Roedd trafodaethau â'r staff gofal yn dangos eu bod yn deall y polisi ymddygiad a bod strategaethau cyson ar gyfer rheoli ymddygiad ar waith. Maent yn ymyrryd yn briodol ac yn ddigynnwrf pan fydd y plant yn anghytuno â'i gilydd. Mae'r staff gofal yn rheoli rhyngweithiadau mewn ffordd gynnes, gyfeillgar a thyner. Mae'r staff gofal yn canmol y plant am eu hymdrechion gan ddefnyddio iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud "please" (os gwelwch yn dda) a "thank you" (diolch). Mae'r staff yn creu cyfnodau cymdeithasol ar gyfer y plant, gan gynnwys adeg prydau bwyd, ac maent yn esiampl dda i'r plant wrth iddynt siarad yn garedig ac yn barchus â'i gilydd. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr iach yn rheolaidd. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn gadarnhaol iawn am y staff gofal a'u bod yn mwynhau eu gweld yn y gymuned.

Gwelsom y staff gofal yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn annog rhyngweithio cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn canmol y plant yn gyson ac yn eu hannog i chwarae ac i weithio gyda'i gilydd. Maent yn gwranddo ar farn y plant ac yn eu parchu. Clywsom rhyngweithiadau rhwng y staff gofal a'r plant a oedd yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd. Mae'r staff gofal yn gwranddo'n astud ar straeon y plant ac yn datblygu eu dealltwriaeth drwy gwestiynu priodol. Gwelsom fod y staff yn ymateb i'r plant mewn modd caredig; gwnaethant eu cofleidio a gwneud yn siŵr eu bod yn diwallu eu hanghenion sylfaenol. Gwelsom y staff gofal yn eistedd gydag un o'r plant am ei fod wedi dechrau teimlo'n drist ar adeg pryd bwyd. Gwnaeth y staff gofal eistedd gyda'r plentyn gan ei annog a'i ganmol ar ôl iddo orffen bwyta ei fwyd. Gwnaeth hyn helpu'r plentyn i deimlo'n fwy cyfforddus ac i ymlacio. Mae'r lleoliad yn darparu byrbrydau iach rheolaidd, ac er nad yw'n cynnig prydau wedi'u coginio, mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff gofal yn cydweithio'n agos â'r rhieni i annog y teuluoedd i fwyta'n iach.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal amgylchedd da er mwyn gwella profiadau'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi nodi risgiau ac maent yn cymryd camau i leihau neu ddileu'r rhain. Mae asesiadau risg ar waith ac mae'r staff yn eu dilyn. Drwy hyn, gwneir yn siŵr bod y staff gofal yn gwybod pa ardaloedd nad ydynt yn hollol ddiogel i'r plant, megis y gegin. Mae'r staff gofal hefyd yn gwirio rhestrau risg dyddiol, yn cofnodi gwiriadau cynnal a chadw ac yn cadw rhestr o ymwelwyr â'r lleoliad. Wrth gyrraedd y lleoliad, roedd yn rhaid i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr a dangos manylion adnabod. Mae gweithdrefnau brys, gweithdrefnau tân a gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith.

Mae'r lleoliad yn addas iawn ar gyfer profiadau chwarae a dysgu'r plant, ac mae'r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau. Mae'r amgylchedd yn olau ac yn agored. Caiff y ffenestri a'r drws cefn eu cadw ar agor i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei awyru'n ddigonol. Mae un man chwarae mawr yn y lleoliad, ac mae'n hawdd cyrraedd y toiledau o'r fan honno. Mae ardal fawr a diogel â tharmac i'r plant ei defnyddio wrth chwarae yn yr awyr agored. Ceir digon o adnoddau yn yr ardaloedd chwarae a dysgu i sicrhau bod modd i'r staff gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n golygu bod y staff yn gallu paratoi gweithgareddau â hyder. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff gofal yn arddangos posterï Cymraeg sy'n lliwgar ac yn briodol, yn ogystal â gwaith celf y plant. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant. Caiff y teganau a'r adnoddau eu storio ar lefel taldra'r plant mewn cynwysyddion sydd wedi'u labeli â lluniau o'r cynnwys, gan hybu annibyniaeth y plant wrth iddynt helpu eu hunain i'r eitemau hyn. Mae amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau ar gael, gan gynnwys deinosoriaid, tryciau, blociau adeiladu, offer adeiladu tegan, cerbydau, anifeiliaid, garej a chyfarpar crefft.

Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am arferion gofal plant presennol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall ac yn gynhwysfawr. Maent yn diweddarau eu polisïau a'u gweithdrefnau fel sy'n ofynnol, ac yn eu rhannu â phob aelod o'r staff. Drwy hyn, gwneir yn siŵr bod pawb yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Mae trefniadau cynllunio tasgau â phwyslais penodol ar waith, sy'n cynnwys gweithgaredd ar gyfer pob un o'r meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys elfen o fyfyrion ar y gwaith o arsylwi ar ddealltwriaeth y plant a'i gwerthfawrogi a phenderfynu ar y camau nesaf. Mae'r person â chyfrifoldeb yn tynnu lluniau o'r plant yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau yn rheolaidd, ac yn cadw'r lluniau hyn gyda gwaith y plant mewn llyfrau lloffion sy'n cael eu hanfon gartref at y rhieni pan fydd y plant yn pontio i'r ysgol gynradd leol.

Mae'r staff gofal yn hapus yn eu swyddi ac yn ymwybodol o'r strwythur rheoli, ac yn gwybod â phwy y dylid cysylltu os oes angen cymorth arnynt. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu bob amser. Cwblhawyd adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ond mae angen cwblhau adolygiad eleni o hyd. Mae'r trefniadau recriwtio staff gofal yn gadarn. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff gofal a gwelsom fod yr holl wiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau DBS cyfredol. Roedd y staff gofal a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn gweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac yn arwain y plant mewn modd priodol. O ganlyniad i hynny, roedd y plant wrth eu bodd â'r gofal roedd y staff brwdfrydig yn ei roi iddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth cynnal sesiynau goruchwyllo rheolaidd ac ystyrion sy'n cefnogi'r staff gofal gyda'u rôl, eu gwaith dysgu a'u datblygiad ac unrhyw broblemau o ran perfformiad a all godi. Roedd y person â chyfrifoldeb yn trefnu'r staff yn briodol i oruchwyllo tasgau a gweithgareddau yn effeithiol ac i gefnogi'r plant. Mae staff wrth gefn ar gael ar gyfer absenoldebau staff. Fodd bynnag, nid yw'r person â chyfrifoldeb wedi cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd nac arfarniadau blynyddol gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth.

Ceir cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, ac maent yn cyfrannu at lesiant y plant gan fod y rhieni yn dweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn wrth ddod â'u plant i'r lleoliad neu wrth eu casglu. Mae'r rhieni hefyd yn cael cylchlythyr misol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cadw cofnodion o ddiwyddiadau a damweiniau, ac weithiau maent yn eu rhannu â'r rhieni. Mae'r lleoliad yn caniatáu i rhieni newydd ymweld â'r safle bob prynhawn dydd Gwener ar ôl i'r plant adael. Drwy'r arferion hyn, caiff y rhieni/y gwarcheidwaid gyfle i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- 1) Pob aelod o'r staff i gwblhau hyfforddiant 'Dyletswydd Atal';
- 2) Cwblhau 'Ansawdd y Gofal' ar gyfer 2021 i gynnwys adborth gan y staff, y plant, y rhieni a gweithwyr proffesiynol.
- 3) Sicrhau bod cynlluniau gweithgareddau yn cynnwys elfen o fyfyrio ar y gwaith o arsylwi ar ddealltwriaeth y plant a'i gwerthfawrogiad a phenderfynu ar y camau nesaf;
- 4) Sicrhau bod cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu llofnodi a'u rhannu â'r rhieni bob amser.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Wedi'i gyflawni**

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny.
Heb ei gyflawni**

Dim

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y person â
chyfrifoldeb yn cael sesiynau goruchwyllo nac arfarniadau
priodol

Rheoliad 29 (3) (a)

Adroddiad terfynol heb ei

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Dyddiad Cyhoeddi 10/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi